CYNGOR DINAS CASNEWYDD

# CYNLLUN NEWID HINSAWDD SEFYDLIADOL

## 2022-27



SERO NET CASNEWYDD
NET ZERO NEWPORT

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg
This document is available in Welsh

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 01 | **Rhagair** | 03 |
| 02 | **Crynodeb** | 04 |
| | 2.1 Themâu Cyflawni Allweddol | 04 |
| 03 | **Termau y byddwch yn eu gweld yn ein cynllun** | 05 |
| 04 | **Cyflwyniad** | 08 |
| | 4.1 Beth yw'r Newid yn yr Hinsawdd a Chynhesu Byd-Eang? | 08 |
| | 4.2 Beth sy'n Achosi'r Cynhesu hwn? | 09 |
| | 4.3 Beth yw'r Effeithiau? | 09 |
| | 4.4 Cytundeb Paris | 10 |
| | 4.5 Cyd-destun Cymru | 12 |
| | 4.6 Cyd-destun Awdurdod Lleol | 15 |
| 05 | **Beth yw'r sefyllfa nawr?** | 18 |
| | 5.1 Mesurau i Leihau Allyriadau ledled y Cyngor | 18 |
| | 5.2 Mesurau i Leihau Allyriadau ledled y Ddinas | 19 |
| | 5.3 Cynlluniau'r Dyfodol | 20 |
| | 5.4 Gwaelodlin ar gyfer ein Hallyriadau Carbon | 20 |
| 06 | **Y cynllun** | 23 |
| | 6.1 Sut Cafodd y Cynllun ei Ddatblygu? | 23 |
| | 6.2 Nodau'r Cynllun | 23 |
| | 6.3 Themâu Cyflawni Allweddol | 23 |
| 07 | **Themâu cyflawni** | 25 |
| | 7.1 Thema 1: Diwylliant ac arweinyddiaeth sefydliadol | 25 |
| | 7.2 Thema 2: Ein Hadeiladau | 29 |
| | 7.3 Thema 3: Ein Tir | 32 |
| | 7.4 Thema 4: Trafnidiaeth a Symudedd | 35 |
| | 7.5 Thema 5: Y Nwyddau a'r Gwasanaethau a Gaffaelwn | 41 |
| | 7.6 Thema 6: Ein Rôl Ehangach | 45 |
| 08 | **Amserlenni** | 51 |

# 01. Rhagair

Yn dilyn y Cyngor yn datgan Argyfwng Ecolegol a Hinsawdd ym mis Tachwedd, mae'r ddau ohonom yn falch o gyflwyno ein Cynllun Sefydliadol ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Newid yn yr Hinsawdd yw un o heriau byd-eang diffiniol ein cenhedlaeth ac mae angen gwirioneddol i'r byd ddatgarboneiddio, cyfyngu ar gynnydd yn y tymheredd byd-eang ac osgoi effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd.

Mae angen i'r byd hefyd addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd nawr ac yn y dyfodol. Mae effeithiau cronnus newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys lefelau'r môr yn codi, ansawdd aer gwael a digwyddiadau tywydd eithafol, eisoes yn rhoi llawer o bobl mewn perygl yn lleol a ledled y byd.

Fel sefydliad, rydym wedi dechrau'n dda ac rydym eisoes wedi gwneud gostyngiad sylweddol yn ein hallyriadau carbon yn unol â'r targedau a nodir yn ein Cynllun Rheoli Carbon yn 2017-18. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 29% mewn allyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2.

Fodd bynnag, mae llawer mwy y mae angen i ni ei wneud o hyd.

Fel sefydliad sy'n gyfrifol yn fyd-eang, mae'r cyngor wedi ymrwymo i:

- gyrraedd sero-net erbyn 2030 a
- sicrhau bod ein gwasanaethau'n cefnogi taith y ddinas i fod yn sero-net erbyn 2050 ac yn addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Bydd y cynllun yn ddogfen allweddol i'r Cyngor yn y dyfodol a bydd yn llywio cyfeiriad y Cyngor wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau.

Mae'r ddau ohonom yn cydnabod y bydd gwneud y dewisiadau cywir yn awr yn ein gosod ar y llwybr cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac mae'r cynllun yn nodi'r themâu, y blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r cerrig milltir y mae angen i ni eu cymryd fel Cyngor dros y pum mlynedd nesaf i gyflawni'r ymrwymiad hwnnw.



**Y Cynghorydd Jane Mudd**

Arweinydd y Cyngor



**Y Cynghorydd Jason Hughes**

yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy

# 02. Crynodeb

Dyma Gynllun Cynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol Cyngor Dinas Casnewydd sy'n nodi'r themâu, y blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r cerrig milltir arfaethedig y mae angen i ni eu cyflawni fel Cyngor dros y pum mlynedd nesaf i:

- Fod yn sefydliad carbon sero-net erbyn 2030.
- Adolygu'r gwasanaethau a ddarperir gennym i sicrhau eu bod yn cefnogi taith y ddinas i fod yn sero-net ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae gostyngiad o 29% yng nghwmpas allyriadau carbon 1 a 2 y Cyngor eisoes wedi'i gyflawni yn ystod y tair blynedd diwethaf.

## 2.1 Themâu Cyflawni Allweddol

**Er mwyn cyflawni hyn, nodwyd chwe thema gyflawni yn y cynllun:**

| | THEMA | Gweledigaeth 2030 |
|---|---|---|
| 01 | **Diwylliant Ac Arweinyddiaeth Sefydliadol** | Bydd yr argyfwng hinsawdd a natur wrth wraidd ein holl waith. Yn ein penderfyniadau, byddwn yn cymryd camau cadarnhaol i leihau effeithiau hinsawdd ac ecolegol. Byddwn yn arwain drwy esiampl ac yn grymuso ein partneriaid, cymunedau ac unigolion i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a blaenoriaethu atebion sy'n seiliedig ar natur. |
| 02 | **Ein Hadeiladau** | Sicrhau ynni carbon sero-net a chefnogi'r adferiad natur ar draws ein hadeiladau erbyn 2030. |
| 03 | **Ein Tir** | Dinas sy'n rheoli ac yn cynyddu ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ddiogelu, cyfoethogi, gwella a chysylltu'r amgylchedd naturiol mewn modd carbon niwtral a chyfrifol o ran yr hinsawdd. |
| 04 | **Trafnidiaeth A Symudedd** | Dinas sy'n cynnig dewisiadau teithio iach a chynaliadwy i bobl. |
| 05 | **Y Nwyddau A'r Gwasanaethau A Gaffaelir** | Bydd caffael cynaliadwy wrth wraidd y gwaith o sicrhau bod ein contractau allanol yn effeithio cyn lleied â phosibl ar yr hinsawdd a natur ac yn lleihau ôl troed carbon nwyddau, gwaith a gwasanaethau a gaffaelir. |
| 06 | **Ein Rôl Ehangach** | Arwain drwy esiampl a chefnogi ein cymunedau a'n partneriaid yn rhagweithiol tuag at gamau gweithredu dros natur ac adfer yr hinsawdd ledled y gymdeithas. |

# 03. Termau y byddwch yn eu gweld yn ein cynllun

**Bioamrywiaeth** yw'r holl wahanol fathau o fywyd a welwch mewn un ardal—yr amrywiaeth o anifeiliaid, planhigion, ffyngau a micro-organebau fel bacteria sy'n ffurfio ein byd naturiol. Mae pob un o'r rhywogaethau a'r organebau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal cydbwysedd a bywyd.

**Dal a Storio Carbon Biolegol** yw'r broses o storio carbon deuocsid mewn llystyfiant fel glaswelltiroedd, coedwigoedd, priddoedd a chefnforoedd.

Mae **Seilwaith Glas** yn rhwydwaith o fannau glas amlswyddogaeth a nodweddion glas, sy'n gallu sicrhau ansawdd bywyd a manteision amgylcheddol i gymunedau. Mae'n cynnwys llynnoedd, afonydd, nentydd, camlesi a chyrff dŵr eraill.

Mae **Ôl-osod Adeilad** yn golygu newidiadau i adeilad ar ôl iddo gael ei adeiladu i wella effeithlonrwydd ynni neu leihau'r galw am ynni.

**Llythrennedd Carbon** yw 'ymwybyddiaeth o gostau ac effeithiau carbon deuocsid sydd ynghlwm wrth weithgareddau pob dydd, a'r gallu a'r cymhelliant i leihau allyriadau, fel unigolion, cymunedau a sefydliadau.'

Mae **Carbon Niwtral** yn golygu allyriadau carbon sero-net.

Cyflawnir **Economi Gylchol** drwy ddylunio cynhyrchion yn ddoeth gyda'u cylch oes cyfan mewn golwg, ail-ddefnyddio ac atgyweirio i ymestyn eu hoes ddefnyddiol, ac yna pan ystyrir bod eu hoes drosodd, ail-weithgynhyrchu i greu cynhyrchion newydd o hen.

Mae'r **Newid yn yr Hinsawdd** yn cynnwys cynhesu byd-eang a "sgil-effeithiau" cynhesu, er enghraifft rhewlifau'n toddi, stormydd glaw trymach, neu sychder amlach.

**Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd** yw osgoi a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu, dal a storio nwyon tŷ gwydr.

**Mae Addasu'r Newid yn yr Hinsawdd** yn golygu newid ein hymddygiad, ein systemau a'n ffyrdd o fyw i ddiogelu ein teuluoedd, ein heconomïau, a'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

**Mae'r Argyfwng Hinsawdd** yn sefyllfa lle mae angen gweithredu ar frys i leihau neu atal y newid yn yr hinsawdd ac osgoi difrod amgylcheddol na ellir ei wrthdroi o ganlyniad iddo.

**Ôl-ffitio Trylwyr** yw adeilad mawr neu gyfan sy'n cael ei ôl-ffitio i sicrhau adeilad ynni sydd fwy na heb yn sero-net.

Mae **Rhwydwaith Gwresogi Ardal** yn system ddosbarthu o bibellau wedi'u hinswleiddio sy'n cymryd gwres o ffynhonnell ganolog ac yn ei darparu i nifer o adeiladau domestig neu annomestig.

**Eco-lythrennedd** yw'r gallu i ddeall y systemau naturiol sy'n gwneud bywyd ar y ddaear yn bosibl.

**Mae Ôl Troed Ecolegol Cymru** yn fesur sy'n dangos faint o blanedau y byddai eu hangen pe bai pawb yn y byd yn defnyddio'r un swm o ynni â Chymru.

**Ecoleg** yw'r berthynas rhwng pethau byw a'u hamgylchedd.

**Ecosystemau** yw'r holl bethau byw mewn ardal a'r ffordd y maent yn effeithio ar ei gilydd a'r amgylchedd.

## 03. Termau y byddwch yn eu gweld yn ein cynllun

**Gwydnwch Ecosystem** yw gallu ecosystem i ymateb i aflonyddwch trwy wrthsefyll difrod ac adfer yn gyflym.

**Cynhesu Byd-eang** yw tymheredd arwyneb cynyddol y Ddaear ac mae'n un o symptomau'r newid yn yr hinsawdd a achosir gan bobl sy'n broblem lawer gwaeth.

Yr **Effaith Tŷ Gwydr** yw'r effaith y mae nwyon tŷ gwydr yn ei chael ar y Ddaear, sef cynhesu ei harwyneb.

**Nwyon Tŷ Gwydr (NTG)** yw'r haen denau o nwyon o amgylch y Ddaear. Mae'r nwyon hyn yn cynnwys nwyon tŷ gwydr sy'n ffurfio'n naturiol a'r rhai sy'n deillio o weithgarwch pobl, megis carbon deuocsid, methan, anwedd dŵr ac ocsid nitraidd.

**Mae Seilwaith Gwyrdd** yn rhwydwaith o fannau gwyrdd amlswyddogaeth a nodweddion gwyrdd, sy'n gallu sicrhau ansawdd bywyd a manteision amgylcheddol i gymunedau. Mae'n cynnwys parciau, mannau agored, caeau chwarae, coetiroedd, coed stryd, rhandiroedd, gerddi preifat, toeau a waliau gwyrdd, SDCau a phriddoedd. Mae hefyd yn cynnwys llynnoedd, afonydd, nentydd, camlesi a chyrff dŵr eraill, o'r enw Seilwaith Glas.

**Adnoddau Naturiol** yw'r asedau naturiol neu'r deunyddiau crai a geir ym myd natur. Mae adnoddau naturiol y Ddaear yn cynnwys golau, aer, dŵr, planhigion, anifeiliaid, pridd, carreg, mwynau a thanwyddau ffosil.

**Atebion sy'n Seiliedig ar Natur** yw camau gweithredu i ddiogelu, rheoli'n gynaliadwy, ac adfer ecosystemau naturiol ac wedi'u haddasu sy'n mynd i'r afael â heriau cymdeithasol yn effeithiol ac yn ymaddasol, gan ddarparu lles dynol a manteision bioamrywiaeth ar yr un pryd.

Mae **Sero-net** yn golygu sicrhau cydbwysedd rhwng swm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir a'r swm a dynnir.

**Dyodiad** yw unrhyw hylif neu ddŵr rhewedig sy'n ffurfio yn yr atmosffer ac sy'n disgyn yn ôl i'r Ddaear.

**Caffael** yw'r weithred o brynu nwyddau neu wasanaethau.

Mae **Rhaglen Re:fit** yn fenter gymorth i gyrff cyhoeddus sy'n eu helpu i weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni a chynlluniau cynhyrchu ynni lleol ar eu hasedau. Mae'r mesurau hyn yn gwella perfformiad ynni, yn lleihau allyriadau carbon a chostau rhedeg.

Mae **Cwmpas 1: Allyriadau Uniongyrchol** yn dod o ffynonellau sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu rheoli ganddo gan gynnwys allyriadau o'n fflyd peiriannau a cherbydau a thanwydd.

Mae **Cwmpas 2: Allyriadau Anuniongyrchol** yn dod o gynhyrchu trydan a gwres a brynir. Mae'r ynni'n cael ei gynhyrchu mewn mannau eraill, ond fel defnyddiwr mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr allyriadau.

Mae **Cwmpas 3: Allyriadau Anuniongyrchol** yn dod o ffynonellau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor ac nad ydynt yn cael eu rheoli'n uniongyrchol ganddo. Fodd bynnag, maent yn gysylltiedig â'n gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys allyriadau o'r gadwyn gyflenwi, fel nwyddau yr ydym wedi'u prynu a gwasanaethau yr ydym wedi'u rhoi ar gontract allanol. Mae hefyd yn cynnwys allyriadau o'r dŵr a ddefnyddiwn, ein gwasanaethau gwastraff, gweithwyr yn cymudo a theithio busnes.

## 03. Termau y byddwch yn eu gweld yn ein cynllun

**Solar Ffotofoltäig** yw cynhyrchu trydan gan ddefnyddio ynni o'r haul. Mae paneli solar modern yn cynhyrchu trydan o olau dydd ac nid oes angen golau haul uniongyrchol arnynt, er bod mwy o drydan yn cael ei gynhyrchu ar ddiwrnodau heulog llachar.


**Diben Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)**
yw rheoli dŵr stormydd yn lleol, i ddynwared systemau draenio naturiol ac annog ei ymdreiddiad a'i driniaeth oddefol. Diben SDCau yw rheoli peryglon llifogydd a llygredd sy'n deillio o ddŵr ffo trefol a chyfrannu lle bynnag y bo modd at brosesau gwella'r amgylchedd a chreu lleoedd.

Mae **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy** yn golygu defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu cynnig.

**Caffael Cynaliadwy** yw proses trwy ba un y mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau a gwaith mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan sy'n creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Mae'n ystyried canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr hyn sy'n cael ei gaffael drwy bob cam o'i gylch bywyd. Mae hyn yn cynnwys ystyried dylunio, echdynnu adnoddau a chyrchu, gweithgynhyrchu a chynhyrchu, cludo, darparu gwasanaethau, gweithredu a chynnal a chadw, ailddefnyddio, ailgylchu a gwaredu. Mae hefyd yn ymwneud â chwestiynu am pa un a oes angen prynu o gwbl. Mae hefyd yn ystyried gallu cyflenwyr i fynd i'r afael â'r canlyniadau hyn drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan.

**Opsiynau Trafnidiaeth Gynaliadwy** yw cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau trydan. Nid yw pob opsiwn yr un mor gynaliadwy. Gweler yr hierarchaeth teithio cynaliadwy isod.

**Mae'r Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy**




yn llywio penderfyniadau cynllunio ac yn rhoi blaenoriaeth i deithio llesol a cherbydau trafnidiaeth gyhoeddus, ac yna allyriadau isel iawn ac yn olaf cerbydau preifat. Fe'i nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) 10.

Mae **Tunelli o Garbon Deuocsid Cyfatebol ($tCO_2e$)** yn fesur a ddefnyddir i gymharu'r allyriadau o wahanol nwyon tŷ gwydr yn seiliedig ar eu potensial cynhesu byd-eang. Er enghraifft, potensial cynhesu byd-eang methan dros 100 mlynedd yw 21. Mae hyn yn golygu bod miliwn tunnell fetrig o allyriadau methan yn cyfateb i 21 miliwn tunnell fetrig o garbon deuocsid.

**21ain Gynhadledd y Partïon (COP21) ym Mharis** yn 2015 oedd pan lofnododd 196 o bartïon (gwledydd) y cytundeb rhyngwladol cyfreithiol rwymol diweddaraf ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae **Cerbydau Allyriadau Isel Iawn** yn gerbydau sy'n gollwng llai na 75g o CO2 fesul km o'r egsôst.

Mae **Allyriadau o'r Ffynnon i'r Tanc** a elwir hefyd yn allyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi neu'n allyriadau anuniongyrchol, yn gyfartaledd o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr a ryddheir i'r atmosffer o gynhyrchu, prosesu a darparu tanwydd neu ynni.

# 04. Cyflwyniad

Dyma Gynllun Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Dinas Casnewydd sy'n nodi'r themâu, y blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r cerrig milltir arfaethedig y mae angen i ni eu cyflawni fel Cyngor dros y pum mlynedd nesaf i:

Fod yn sefydliad carbon sero-net erbyn 2030.

Adolygu'r gwasanaethau a ddarperir gennym i sicrhau eu bod yn cefnogi taith y ddinas i fod yn sero-net ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.


Mae hon yn ddogfen allweddol i'r Cyngor a bydd yn siapio mesurau lliniaru a thaith addasu'r Cyngor i newid yn yr hinsawdd dros y pum mlynedd nesaf.

## 4.1 Beth yw'r Newid yn yr Hinsawdd a Chynhesu Byd-Eang?

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn cwmpasu ystod eang o newidiadau i'n hinsawdd, gan gynnwys y tymheredd cyfartalog a lefelau dyddodiad. Mae'n cynnwys cynhesu a "sgil-effeithiau" cynhesu, er enghraifft; rhewlifau'n toddi, stormydd glaw trymach, neu sychder amlach.

Cynhesu Byd-eang yw tymheredd arwyneb cynyddol y Ddaear ac mae'n un o symptomau'r newid yn yr hinsawdd a achosir gan bobl sy'n broblem lawer gwaeth.

Ffigur i: Tymheredd Arwyneb Cyfartalog




Ffynhonnell: WMO 2020

Dros y degawdau diwethaf, mae'r tymheredd arwyneb cyfartalog wedi cynyddu'n sylweddol, fel y nodir yn ffigur i. Mae pob stribed yn cynrychioli'r gwahaniaeth tymheredd cyfartalog rhwng un flwyddyn a chyfartaledd yr 20fed ganrif. Mae'r llinellau coch yn dangos darlleniad cynhesach na'r cyfartaledd a glas yn dangos darlleniad oerach na'r cyfartaledd, gyda'r lliwiau cryfach yn cyfateb i wahaniaeth mwy. Gyda'i gilydd, mae'r stribedi'n dangos yn glir sut, ac i ba raddau, y mae'r tymheredd byd-eang wedi newid dros y blynyddoedd.

## 4.2 Beth sy'n Achosi'r Cynhesu hwn?


Fel y gwyddom, mae'r Ddaear wedi'i hamgylchynu gan haen denau o nwyon. Mae'r nwyon hyn yn cynnwys nwyon tŷ gwydr (NTG) sy'n ffurfio'n naturiol a'r rhai sy'n deillio o weithgarwch pobl, fel carbon deuocsid, methan, anwedd dŵr ac ocsid nitraidd.

Wrth i ymbelydredd solar o'r haul gyrraedd y Ddaear, mae cyfran ohono'n cael ei amsugno gan yr NTG ac mae'r gweddill yn cael ei adlewyrchu'n ôl i'r gofod.

Mae cael y swm a'r cydbwysedd cywir o nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yn rhoi'r tymheredd sydd ei angen arnom i fyw'n gyfforddus ar ein planed. Heb unrhyw NTG o fewn yr haen hon, tymheredd cyfartalog y Ddaear fyddai -18°C.

Fodd bynnag, mae cynnydd yng nghrynodiad NTG yn yr atmosffer yn arwain at gadw gormod o ynni gwres, a chyfradd uwch o gynhesu byd-eang, gan arwain at newidiadau sylweddol i'n hinsawdd.

Ffigur ii: Effaith Tŷ Gwydr




Source: https://www.open.edu/openlearn/ocw/mod/oucontent/view.php?id=68980&section=2.2

Ffigur iii: Newidiadau i'n Hinsawdd

Cynnydd yn y Crynodiad o Nwyon Tŷ Gwydr

Mwy o Wres yn Cael ei Gadw

Cynhesu Bydeang cyflymach


Newidiadau Mawr i'n Hinsawdd



## 4.3 Beth yw'r Effeithiau?

Mae llawer o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i gynhesu byd-eang a'r newid yn yr hinsawdd.

Ffigur iv: Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd




Ffynhonnell: Comisiwn Lancet

Yn y DU, rhagwelir y byddwn yn gweld newid i batrymau tywydd gyda stormydd cryfach yn digwydd yn amlach, bydd hyn yn arwain at fwy o berygl o lifogydd mewn ardaloedd lleol. Yn ystod misoedd yr haf bydd y tymheredd yn parhau i godi, gan ddod â thywydd poeth a sychder.

Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ansawdd tir, defnydd tir ac amaethyddiaeth. Bydd ansawdd dŵr ac aer yn parhau i waethygu, a bydd newidiadau i ecoleg leol a bioamrywiaeth bywyd gwyllt, gyda rhai rhywogaethau lleol mewn perygl o ddiflannu.

Gydag effaith ar ffermio, bydd cost bwyd yn cynyddu ynghyd â chostau byw. Bydd difrod i dir a seilwaith yn arwain at fwy o straen ar wasanaethau cyhoeddus ac economïau lleol.

Bydd newidiadau yn y tymheredd hefyd yn arwain at blâu'n ymgartrefu ymhellach i'r gogledd oherwydd yr hinsawdd gynhesach a fydd yn dod â mwy o glefydau, nad ydynt fel arfer yn cael eu gweld yn y DU. Bydd newidiadau i'r hinsawdd hefyd yn dod â mathau newydd o afiechydon sy'n gysylltiedig ag eithafion mewn tymheredd, gyda'r ifanc a'r henoed yn cael eu heffeithio fwyaf. Bydd hyd yn oed mwy o straen ar y system iechyd.

Mae'n bwysig nodi bod yr holl ganlyniadau hyn wedi'u cydgysylltu ac yn yr un modd gellir eu lliniaru drwy wneud popeth o fewn ein gallu i atal y newid yn yr hinsawdd cymaint â phosibl.

## 4.4 Cytundeb Paris

Yn 2015, llofnododd 196 o bartïon y cytundeb rhyngwladol cyfreithiol rwymol diweddaraf ar y newid yn yr hinsawdd yn 21ain Gynhadledd y Partïon (COP21) ym Mharis.

Ffigur v: Cytundeb Paris




Cyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang ar gyfartaledd fel na fydd yn fwy na <2o ganradd a sicrhau allyriadau sero-net erbyn canol y ganrif

Gwella gwydnwch a'r gallu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd sy'n sicr o ddigwydd

Alinio llifoedd arian yn y byd â'r amcanion hyn

Ffynhonnell: cynaliadwyedd.yale'edu

Mae'r cytundeb hwn yn amlinellu tri phrif amcan:

- Cyfyngu cynhesu byd-eang ymhell islaw dwy radd Celsius, o'i gymharu â lefelau cyn-ddiwydiannol.
- Gwella gwydnwch i effeithiau'r hinsawdd, na ellir eu hosgoi oherwydd yr NTG sydd eisoes wedi'u rhyddhau.
- Alinio llifoedd arian yn y byd â'r amcanion hyn

Ffigur vi: Risgiau sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd

| | 1.5°c | 2°c | Effaith 2°c o'i gymharu ag 1.5°c |
|---|---|---|---|
| Colli rhywogaethau planhigion | Bydd 8% o blanhigion yn colli hanner o'u hardal gyfanheddol | Bydd 16% o blanhigion yn colli hanner o'u hardal gyfanheddol | 2 x yn waeth |
| Colli rhywogaethau planhigion | Bydd 6% o bryfed yn colli hanner o'u hardal gyfanheddol | Bydd 18% o bryfed yn colli hanner o'u hardal gyfanheddol | 3 x yn waeth |
| Colli rhywogaethau planhigion | 70 - 90% | 99% | Hyd at 29 x yn waeth |
| Colli rhywogaethau planhigion | Mae 14% o'r boblogaeth fyd-eang yn agored i wres difrifol bob 1 ym mhob 5 mlynedd | Mae 37% o'r boblogaeth fyd-eang yn agored i wres difrifol bob 1 ym mhob 5 mlynedd | 2.6 x yn waeth |
| Colli rhywogaethau planhigion | O leiaf unwaith bob 100 mlynedd | O leiaf unwaith bob 10 mlynedd | 10 x yn waeth |

Source: https://www.climatecouncil.org.au/resources/infographic-the-difference-between-1-5-and-2-degrees-warming/

## 4.5 Cyd-destun Cymru


### 4.5.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddull deddfwriaethol cynhwysfawr o gryfhau camau gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru, gyda chysylltiad cyfreithiol â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor a chyrff penodedig eraill i gyflawni datblygu cynaliadwy a gwella lles Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod lles ar waith sy'n cwmpasu gweledigaeth i wella lles gan gynnwys ymdrechu i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer y dyfodol.



Ffigur vii: Nodau Lles



Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

46 o ddangosyddion cenedlaethol yn helpu i adrodd stori am gynnydd yn erbyn y nodau lles. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gyfres o gerrig milltir cenedlaethol i greu mecanwaith ar gyfer monitro cynnydd cenedlaethol tuag at y saith nod lles.

**Mae sawl mesur sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon.**

- Carreg Filltir 7 | Dangosydd Rhif 14 - Ôl Troed Ecolegol Cymru
- Carreg Filltir 8 | Indicator Number 41 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yng Nghymru
- Carreg Filltir X | Indicator Number 44 - Statws amrywiaeth Fiolegol Cymru

### 4.5.2 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd yn dangos sut y gellir gweithredu blaenoriaethau'r Cenhedloedd Unedig ar lefel gwlad a rhanbarth gan gynnwys targedau'r newid yn yr hinsawdd, dyletswydd bioamrywiaeth a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn nodi gostyngiad o 80% o leiaf mewn allyriadau erbyn 2050. Ers hynny, mae'r targed hwn wedi'i ddiwygio a'i gynyddu i 100% erbyn 2050.

Yng Nghymru, ein natur, ein tir, ein dŵr a'n hawyr yw ein hadnodd sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r galwadau ar yr adnoddau naturiol hyn yn cynyddu ac un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu yw dod o hyd i ffordd o sicrhau ecosystemau iach, gwydn a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol tra'n parhau i ymateb i'r heriau o greu swyddi, tai a seilwaith. Mae Deddf yr Amgylchedd yn ein helpu i ymateb i'r her.

### 4.5.3 Yr Argyfwng Hinsawdd a Sero-net 2050

Yn 2019, Llywodraeth Cymru oedd y senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd. Yr un flwyddyn, cytunodd holl weinyddiaethau llywodraeth y DU i godi'r targed allyriadau ymhellach a gosod targed di-garbon erbyn 2050 (ar wahân i'r Alban sy'n anelu at fwrw'r targed 5 mlynedd ynghynt). Yn 2021, nododd Llywodraeth Cymru ymrwymiad cyfreithiol i sicrhau sero-net erbyn 2050 ond mae'n pwyso i "fwrw'r targed yn gynt".

### 4.5.4 Sector Cyhoeddus Sero-net yng Nghymru erbyn 2030 a'r Trywydd i Ddatgarboneiddio

I gyflawni'r nod hwn, mae'r sector cyhoeddus wedi cael y dasg o ddod yn garbon sero-net erbyn 2030. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ar hyn o bryd mae'n gweithio tuag at yr uchelgais o fod yn sefydliad carbon sero-net erbyn 2030 ac yn cefnogi Cymru i fod yn garbon sero-net erbyn 2050.

Mae'r Trywydd i Ddatgarboneiddio yn llywio'r gwaith o ddatblygu cyfraniad sector cyhoeddus Cymru i gynlluniau cyflawni carbon-isel Cymru gyfan yn y dyfodol ac mae'n drosolwg o'r camau gweithredu a'r cerrig milltir sydd eu hangen i sicrhau allyriadau NTG sero-net erbyn 2030. Mae'n nodi fframwaith ar gyfer gweithredu:

Ffigur viii: Trywydd i Ddatgarboneiddio - Gweledigaeth

> **"Erbyn 2030, bydd dewisiadau di-garbon yn rhan o'r drefn arferol, byddant wedi ymwreiddio yn ein diwylliant ac yn cael eu hunan-reoleiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru"**

Ffigur ix: Trywydd i Ddatgarboneiddio - Y Daith i Sero-net

**Gwasgu'r sbardun 2021-2022**

Lle mae'n hanfodol ein bod yn deall y cyd-destun a'r hyn sydd angen ei wneud, a lle mae angen gweithredu'n gynt.

**Cryn bellter ar hyd y daith 2022-2026**

Lle mae disgwyliad i garbon isel ddatblygu'n norm a lle'r ydym yn bendant ar y ffordd at sector cyhoeddus sero-net yng Nghymru.

**Cyrraedd ein nod 2026-2030**

Lle mae dewisiadau di-garbon yn rhan o'r drefn arefol, lle byddant wedi ymwreiddio yn ein diwylliant ac yn cael eu hunan-redoleiddio.

Ffigur x: Trywydd i Ddatgarboneiddio - Meysydd Gweithredu




Ond mae hefyd yn dweud bod gan y sector cyhoeddus rôl ehangach wrth lunio ein taith carbon-isel ym mhob rhan o gymdeithas.

Bydd Cynllun Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor yn defnyddio'r trywydd yn fframwaith ar gyfer cyflawni.

### 4.5.5 Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru

Sefydlodd Prif Weinidog Cymru Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (CTDdC) i ymchwilio i ffyrdd cynaliadwy o fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae'r Comisiwn wedi nodi cyfres o argymhellion strwythuredig o amgylch y cysyniad o rwydwaith o ddewisiadau trafnidiaeth amgen.

### 4.5.6 Ansawdd Aer

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (SIB) wedi datblygu safonau ansawdd aer ar gyfer ystod o lygryddion er mwyn diogelu iechyd dynol. Mae safonau ansawdd aer wedi eu cynnwys yn neddfwriaeth Cymru a'r DU, yn benodol Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010. Mae'r Ddeddfwriaeth yn gwneud Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am fynd i'r afael â llygredd aer. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw canfod a monitro ardaloedd o fewn ei ranbarth sydd efallai yn mynd yn groes i'r amcanion ansawdd aer. Os canfyddir bod gormod o lygredd, rhaid datgan yr ardal yn ardal rheoli ansawdd aer (ARhAA) a dylid datblygu cynllun gweithredu i wella. Yn y DU y prif lygryddion y mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol iddynt yw nitrogen deuocsid (NO2) a deunydd gronynnol (PM10 a PM2.5).

**Yng Nghasnewydd mae gennym 11 ARhAAau ar hyn o bryd:**

- Caerllion
- De Malpas Road
- Chepstow Road / Clarence Place / Caerleon Road
- Cefn Road
- Caerphilly Road
- George Street

**ARhAAau ar hyd yr M4:**

- Royal Oak Hill
- Basseleg Road, Glasllwch
- Sain Silian
- Glasllwch Road, High Cross
- Malpas Road, Shaftesbury

Bydd blaenoriaethau a chamau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Newid yn yr Hinsawdd yn cefnogi'r gwaith sydd ar y gweill i wella ansawdd aer yng Nghasnewydd.



### 4.5.7 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu dan y gyfraith, ac mae'n erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil, crefydd neu gred,
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

Rhaid i'r cyngor ystyried sut y gallai penderfyniadau effeithio ar bobl yn wahanol oherwydd y nodweddion gwarchodedig uchod, a sut y gellid lleihau unrhyw effaith negyddol.

Mae effaith newid yn yr hinsawdd ar bobl iau a chenedlaethau'r dyfodol yn debygol o fod yn fwy nag ar rannau eraill o'r gymuned gan fod y tymheredd yn debygol o godi wrth i amser fynd yn ei flaen.

Yn ogystal, mae eithafion yn y tywydd yn tueddu i effeithio'n fwy ar y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd eisoes felly gallai pobl hŷn a'r rhai ag anableddau gael eu heffeithio'n fwy hefyd.

Nid oes unrhyw effeithiau penodol ar gyfer hil. Fodd bynnag, mae lleiafrifoedd ethnig yng Nghasnewydd yn tueddu i fyw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd. Mae astudiaethau iechyd cyhoeddus wedi dangos bod effeithiau newid yn yr hinsawdd i'w gweld fwyaf mewn ardaloedd difreintiedig. Er enghraifft, mae ansawdd aer gwael ynghyd ag effeithiau amddifadedd ar iechyd yn plethu i newid a chryfhau cysylltiadau â marwolaethau pob achos a marwolaethau clefydau anadlol, yn enwedig yn yr ardaloedd 'mwyaf' difreintiediglle mae'r bobl fwyaf agored i niwed yn byw a lle mae anghenion iechyd fwyaf.

Hefyd, mae lleiafrifoedd ethnig yn tueddu i gael canlyniadau iechyd gwaeth, disgwyliad oes heb anabledd is a chyfraddau uwch o glefydau cardiofasgwlaidd a diabetes sydd oll yn cael eu heffeithio'n negyddol gan effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Bydd y Cynllun Newid yn yr Hinsawdd yn cefnogi lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn yr ardal leol felly mae'r potensial ganddo i gael effaith gadarnhaol neu leihau'r tebygolrwydd o gael effaith negyddol.

### 4.5.8 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Teimlir anghydraddoldebau o ran canlyniadau ar eu mwyaf difrifol mewn meysydd fel iechyd, addysg, gwaith, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad.

Fel y soniwyd uchod, mae astudiaethau iechyd cyhoeddus wedi dangos bod effeithiau newid yn yr hinsawdd yn tueddu bod ar eu mwyaf mewn ardaloedd difreintiedig.

Bydd y Cynllun Newid yn yr Hinsawdd yn helpu i liniaru ac addasu i'r effeithiau hyn.



## 4.6 Cyd-destun Awdurdod Lleol

### 4.6.1 Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol

Ym mis Tachwedd 2021, cynigiodd y Cyngor gynnig gwleidyddol a datgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol.  Nododd y datganiad:

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau â'r gwaith da yr ydym wedi'i ddechrau a:

- Lleihau ein hallyriadau carbon i garbon sero net erbyn 2030.
- Adolygu'r gwasanaethau a ddarparwn i sicrhau eu bod yn cefnogi taith y ddinas i fod yn un garbon sero-net ac i addasu i'r newid yn yr hinsawdd erbyn 2050.
- Datblygu cynllun Newid yn yr Hinsawdd Sefydliadol clir, mewn ymgynghoriad â dinasyddion, dros y pum mlynedd nesaf a fydd yn nodi'r camau y byddwn angen eu cymryd i gyflawni hyn.
- Datblygu Cynllun Ynni Ardal Leol ledled y ddinas, mewn cydweithrediad ag arbenigwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu atebion arloesol i ddatgarboneiddio gwres, trydan a thrafnidiaeth leol a gwireddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol.
- Gweithio gyda phartneriaid Casnewydd yn Un a'r cyhoedd i ddatblygu Strategaeth Hinsawdd i sicrhau ein bod ni'n garbon sero-net ledled y ddinas ac yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd erbyn 2050
- Integreiddio arfer ecolegol gorau ym mhob rhan o weithgarwch y Cyngor, gan ein galluogi i arwain y ddinas drwy esiampl.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r datganiad hwn o argyfwng hinsawdd ac ecolegol i drigolion a busnesau yng Nghasnewydd a chefnogi a dylanwadu ar gamau gweithredu gan bartneriaid drwy bartneriaethau a chymorth a galluogi dinasyddion i leihau eu hallyriadau carbon eu hunain.

### 4.6.2 Cynllun Llesiant Lleol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r BGC yn cynnwys partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector o'r ardal leol.

Rhaid i bob BGC gyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol sy'n nodi amcanion llesiant sy'n gorfod gwella lles economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal.  Mae'r Cynllun Llesiant Lleol i Gasnewydd presennol yn rhedeg o 2018-23 a'r Amcanion Llesiant yw:

- Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, ymweld a buddsoddi yn ein dinas unigryw.
- Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu, ffynnu a chyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy
- Mae pawb yn perthyn i gymunedau gwydn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu lles.
- Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig.

Mae cefnogi adferiad yr hinsawdd a byd natur a lleihau ein hallyriadau carbon yn allweddol i gyflawni'r amcanion llesiant hyn.

Mae'r Cynllun Llesiant Lleol hefyd yn addo datblygu a chyflawni Strategaeth Hinsawdd ledled y ddinas sydd ar hyn o bryd yn y camau cynnar iawn.

### 4.6.3 Cynllun Corfforaethol

Mae yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017-22 bedwar amcan lles a bennwyd i sicrhau bod y Cyngor yn cyfrannu cymaint â phosibl at y gwaith o gyflawni Nodau Lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yr Amcanion Lles yw:

- Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth
- Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio tra'n diogelu'r amgylchedd
- Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn
- Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy

Mae cyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd a lleihau ein hallyriadau carbon yn allweddol i gyflawni ein holl amcanion lles a'r nodau lles.

Bydd y Cynllun Newid yn yr Hinsawdd yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol a bydd yn sbardun allweddol wrth ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Corfforaethol nesaf ar gyfer y cyfnod 2022-27. Bydd cyflawni ac adrodd blynyddol ar y ddau gynllun yn cael eu cydgysylltu a'u halinio.

### 4.6.4 Cynllun Datblygu Lleol

Y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yw'r cynllun datblygu ar gyfer Casnewydd ac mae'n sail ar gyfer cynllunio defnydd tir o fewn ardal yr awdurdod lleol. Mabwysiadwyd cynllun presennol 2011-26 yn 2015 ac mae ganddo nifer o amcanion a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Newid yn yr Hinsawdd. Y rhain yw:

**Amcan 1 | Defnydd Cynaliadwy o Dir**
Sicrhau bod pob datblygiad yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau naturiol drwy geisio lleoli datblygiadau yn y mannau mwyaf cynaliadwy, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymunedau lleol.

**Amcan 2 | Newid yn yr Hinsawdd**
Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i leihau'r ffactorau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau, ac addasu neu liniaru'r ffactorau hynny drwy ymgorffori egwyddorion dylunio cynaliadwy, newidiadau i'r dulliau teithio a ddefnyddir, rheoli risgiau a chanlyniadau llifogydd, a gwella effeithlonrwydd o ran y defnydd o ynni, gwastraff a dŵr.

**Amcan 6 | Diogelu'r Amgylchedd Naturiol**
Diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys y dirwedd, cynefinoedd gwarchodedig a rhywogaethau pwysig iawn o ran bioamrywiaeth yng Nghymru (ni waeth p'un ai'n safle maes glas neu safle tir llwyd) a gwarchod dyfroedd a reolir.

**Amcan 10 | Gwastraff**
Sicrhau bod dewisiadau o ran rheoli gwastraff yn seiliedig ar yr egwyddor agosatrwydd, lle y bo'n briodol, a bod hierarchaeth o leihau, ailddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel ar waith, a bod cyfleusterau digonol ar gael i alluogi hyn.

Bydd cynllunio ein cymunedau yn allweddol i gefnogi taith y ddinas i sero net ac addasu i newid yn yr hinsawdd.


### 4.6.5 Cynllun Rheoli Carbon

Mae Cynllun Rheoli Carbon 2018-22 y Cyngor a oedd yn canolbwyntio ar allyriadau carbon o gwmpasiad 1 a 2 eisoes wedi dechrau taith y Cyngor tuag at sero-net a bydd yn cael ei adolygu yn 2022. Bydd y Cynllun Rheoli Carbon wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn rhoi mwy o fanylion ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Newid yn yr Hinsawdd.

# 05. Beth yw'r sefyllfa nawr?

Mae'r Cyngor, ynghyd â phob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, wedi ymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Ffigur xi: Allyriadau carbon y Cyngor




Gwnaed camau breision i leihau allyriadau carbon yn unol â'r targedau a nodwyd yn ein Cynllun Rheoli Carbon. O Ffigur xi, mae'n amlwg ein bod wedi parhau i leihau cyfanswm ein hallyriadau islaw'r gwerthoedd targed bob blwyddyn. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 29% yn allyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2 o'i gymharu â'r gwaelodlin sylfaen a nodwyd i ddechrau yn 2017/2018.

## 5.1 Mesurau i Leihau Allyriadau ledled y Cyngor

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau i leihau carbon ledled y sefydliad.

### 5.1.1 Goleuadau Stryd LED

Cwblhau prosiect i drosi'r holl oleuadau stryd aneffeithlon hŷn yn rhai LED modern. Roedd y prosiect yn cynnwys trosi 14,000 o oleuadau eraill ledled y ddinas gan arwain at ostyngiad o 56% mewn defnydd ynni a'r allyriadau carbon cysylltiedig.

### 5.1.2 Cynyddu Mesurau Effeithlonrwydd Ynni

Lleihau'r defnydd o ynni ar gyfer cyfleustodau drwy welliannau gweithredol a newid ymddygiad, mae ystod o fesurau effeithlonrwydd ynni wedi'u rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys, atal drafftiau, inswleiddio, rheoli gwresogi'n well a goleuadau LED ymysg eraill. Mae safon adeiladau ac estyniadau newydd y Cyngor hefyd wedi'i gwella i leihau allyriadau ynni a charbon.

### 5.1.3 Siarter Teithio Llesol Gwent

Ymuno â Siarter Teithio Llesol Gwent sy'n cynnwys cyfres o ymrwymiadau i gefnogi staff ac ymwelwyr i leihau teithio, cerdded a beicio mwy, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a newid i gerbydau trydan. Lansiwyd Siarter Teithio Iach sector cyhoeddus Gwent ym mis Tachwedd 2020. Mae 23 o Sefydliadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Gwent wedi cofrestru sy'n ymrwymo i 15 o gamau gweithredu dros dair blynedd.

### 5.1.4 Cerbydau Trydan a Gwefru



Cyflwyno cerbydau trydan, a ddefnyddiwyd gyntaf i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn 2018, ers hynny mae'r nifer wedi cynyddu'n sylweddol gyda'r Cyngor bellach yn anelu at fod wedi disodli'r holl geir a faniau ysgafn gyda rhai trydan erbyn mis Ebrill 2022. Mae gwefrwyr cerbydau trydan hefyd wedi'u gosod ar sawl safle Cyngor i gefnogi'r newid i ffwrdd o gerbydau tanwydd ffosil erbyn 2030.

Yn 2021, y Cyngor oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i fuddsoddi mewn Cerbyd Casglu Gwastraff trydan (CCG), bydd chwech o'n cerbydau gwastraff yn rhai trydan erbyn mis Ebrill 2022 a'r fflyd gyfan o CCGau yn gyfan gwbl drydan erbyn diwedd y degawd.

### 5.1.5 Solar PV ar Doeau



Ar adeg ysgrifennu hyn, mae gan y Cyngor y casgliad paneli solar to mwyaf ar unrhyw adeilad yng Nghymru gyda system 500kWP a osodwyd yn Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas ym mis Medi 2020. Roedd hyn yn rhan o'r gwaith ehangach o gyflwyno 2.3 MW o baneli solar to, yn gweithio gyda cydweithfa ynni gymunedol Egni Coop ar gyfanswm o 27 o adeiladau. Gall y paneli solar gynhyrchu dros 2 awr Giga Watt o drydan adnewyddadwy y flwyddyn, gan leihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â mewnforio trydan o'r grid yn sylweddol.

## 5.2 Mesurau i Leihau Allyriadau ledled y Ddinas

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau i leihau carbon ledled y ddinas.

### 5.2.1 Teithio Cynaliadwy

Gweithredu nifer o gynlluniau teithio llesol i hyrwyddo cerdded a beicio, ac mae'r Cyngor hefyd wedi gosod 50 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus ledled y ddinas, ym meysydd parcio cyhoeddus sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor. yn bennaf. Bydd y cam nesaf o osod cyfleusterau gwefru cerbydau trydan yn cynnwys gwefrwyr preswyl ar y stryd a hybiau gwefru cyflym.

### 5.2.2 Tai Carbon Isel

Cymeradwyo dau ddatblygiad tai carbon-isel, lle mae'r datblygwyr wedi cytuno i beidio â defnyddio unrhyw danwydd ffosil i ddarparu gwres. Mae'r datblygiadau hefyd wedi cynnwys systemau draenio cynaliadwy (SDCau) wedi'u plannu gyda chymysgedd o fflora dôl wleb, gan gynnwys coed a llwyni cnau ac aeron i ddarparu cyfleoedd a chynefinoedd i fywyd gwyllt. Mae'r Cyngor hefyd wrthi'n datblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn cyd-fynd â gofyniad y ddinas i ddod yn ddinas carbon sero-net erbyn 2050.

## 5.3 Cynlluniau'r Dyfodol

### 5.3.1 Cynyddu Mesurau Effeithlonrwydd Ynni

Er mwyn cyflawni'r gostyngiadau carbon sydd eu hangen i sicrhau carbon sero net erbyn 2030, bydd angen ôl-ffitio helaeth ar adeiladau. Yn ogystal â pharhau i gyflwyno cynlluniau mewn partneriaeth â'n cwmni eiddo menter ar y cyd, Newport Norse, mae'r Cyngor hefyd yn cychwyn ar raglen ôl-ffitio gwerth miliynau o bunnoedd ar y cyd â chwmni gwasanaethau ynni arbenigol. Yn ogystal â lleihau ein defnydd a chynhyrchu ein trydan ein hunain, un o'r prif amcanion fydd dileu neu leihau'n sylweddol y defnydd o foeleri nwy a bwyleri nwy, gan roi systemau pwmpio gwres mwy effeithlon yn eu lle.

### 5.3.2 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Adeiladau

Mae Solar PV eisoes wedi'i osod ar dros 30 o adeiladau'r Cyngor ledled y ddinas a byddwn yn parhau i osod paneli solar lle bynnag y bo modd. Bydd lleihau'r defnydd presennol i'r lleiafswm yn cynyddu'r ynni a ddaw o drydan di-garbon a gynhyrchir ar safleoedd. Bydd trosi ein systemau gwresogi o danwyddau ffosil fel olew a nwy i bympiau gwres trydan nid yn unig yn arbed ynni, ond bydd yn cynyddu ein defnydd o drydan yn sylweddol, a bydd angen systemau solar a storio batris mawr i sicrhau cymaint â phosibl o leihad mewn carbon.

### 5.3.3 Solar PV ar lawr

Mae nifer fach o leoliadau dethol yn cael eu hymchwilio ar gyfer y dechnoleg hon. Gall y systemau mwy hyn wneud mwy o gyfraniad at helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae opsiynau gwefru cerbydau trydan yn uniongyrchol yn cael eu hystyried a fyddai'n caniatáu i gerbydau heb allyriadau o gwbl gael eu gweithredu gan y Cyngor yn y ddinas.

### 5.3.4 Cynllunio Ynni Ardal Leol

Mae prosiect i ddatblygu cynllun ynni hirdymor ar gyfer y ddinas gyfan ar waith yng Nghasnewydd. Mae'r prosiect Cynllunio Ynni Ardal Leol yn fenter gan Lywodraeth Cymru a fydd yn gofyn i awdurdodau lleol lunio cynllun yn nodi sut y gall eu hardal ddiwallu ei hanghenion ynni drwy ffynonellau adnewyddadwy a di-garbon. Bydd y cynllun yn asesu'r systemau ynni presennol, ac yn nodi camau ymarferol a gweledigaeth hirdymor tuag at greu system ynni ddi-garbon ar gyfer y ddinas erbyn 2050. Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a dylai gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2022.

## 5.4 Gwaelodlin ar gyfer ein Hallyriadau Carbon


Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi arweiniad (Mai 2021) i sefydliadau'r sector cyhoeddus i alluogi dull cyson ledled Cymru o adrodd ar eu hallyriadau carbon sefydliadol. Mae'r fethodoleg adrodd newydd yn ystyried yr holl allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a gyflawnir gan awdurdodau lleol gan gynnwys tanwydd, ynni a defnydd dŵr, gwaredu gwastraff, cymudo gweithwyr, teithio busnes, a defnydd tir. Mae ychwanegu allyriadau cwmpas 3 o wastraff, cymudo gweithwyr, teithio busnes a nwyddau a gwasanaethau a brynwyd wedi arwain at y cyfansymiau allyriadau a gofnodwyd gan y Cyngor yn cynyddu'n sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae allyriadau O'r Ffynhonnell i'r Tanc yn cael eu hystyried am y tro cyntaf i ddangos gwir effaith y prosesau, gan ystyried yr allyriadau carbon cwmpas 3 sy'n gysylltiedig ag echdynnu, mireinio a chludo.


Yng nghanllawiau presennol Llywodraeth Cymru (Mai 2021), mae allyriadau'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â chaffael nwyddau a gwasanaethau yn cael eu hystyried yn allyriadau cwmpas 3 anuniongyrchol.

Dyma'r maes cynnydd mwyaf o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol pan na chafodd hyn ei adrodd. Mae allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn seiliedig ar wariant mewn categori penodol a'r ffactor allyriadau sy'n gysylltiedig â'r categori hwnnw. Cydnabyddir bod hwn yn ddull amcangyfrifedig yn seiliedig ar dybiaethau ac nad yw'n rhoi cyfrif cywir o allyriadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai amcangyfrif bras yw caffael ar y gorau, ac bydd gwaith yn parhau i ganfod ffordd o roi canlyniadau mwy cywir. Fodd bynnag, mae'n dal yn ddefnyddiol deall y categorïau gwariant gyda'r cyfansymiau allyriadau carbon mwyaf sy'n gysylltiedig â hwy.

Ffigur xii: Dadansoddiad o'r Cwmpas





Ffigur xiii: Gwaelodlin ar gyfer Adrodd am Garbon



Mae gwaelodlin y Cyngor sy'n cyd-fynd â gwaelodlin carbon sero-net Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-2020. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rhyddhaodd y Cyngor yr hyn sy'n cyfateb i 82,006 tunnell o CO2 i'r atmosffer.

Gan y gallwn weld mai allyriadau carbon o'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu caffael yw cyfran fawr o'r cyfanswm, dyma fydd un o'r meysydd y bydd angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt dros y blynyddoedd nesaf. Ymdrinnir â'r cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r allyriadau hyn yn adran 7.5 o'r cynllun hwn.

Ffigur xiv: Adrodd am Garbon sero-net




Dylid nodi bod gostyngiadau sylweddol wedi'u gwneud i'w gwaelodlin y flwyddyn ariannol ganlynol oherwydd i gyfyngiadau COVID 19 leihau nifer y staff oedd yn gweithio yn swyddfeydd y Cyngor. Byddem yn disgwyl gweld cynnydd bach yn y tunelli CO2 cyfwerth yn 2021-22 yn sgil rhai gwasanaethau'n dychwelyd i drefn debycach i'r drefn arferol.

# 06. Y cynllun

## 6.1 Sut Cafodd y Cynllun ei Ddatblygu?

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Newid yn yr Hinsawdd i arwain y gwaith o ddatblygu'r cynllun.  Roedd staff a rheolwyr o bob rhan o'r Cyngor yn rhan o'r gwaith o ysgrifennu drafft ymgynghori o'r Cynllun gan ddefnyddio'r Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio fel fframwaith.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn Nhachwedd a Rhagfyr 2021. Adolygwyd yr ymatebion i gyd, a diwygiwyd y Cynllun yn unol â hynny.

## 6.2 Nodau'r Cynllun

Mae'r Cynllun yn nodi'r themâu, y blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r cerrig milltir y mae angen i ni eu cyflawni fel Cyngor dros y pum mlynedd nesaf i:

Fod yn sefydliad carbon sero-net erbyn 2030.

Adolygu'r gwasanaethau a ddarperir gennym i sicrhau eu bod yn cefnogi taith y ddinas i fod yn sero-net ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

## 6.3 Themâu Cyflawni Allweddol


Er mwyn cyflawni ar hyn, mae chwe thema gyflawni wedi'u nodi'n debyg i'r rhai yn y Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio.

Y themâu cyflawni yw:




Nid yw'r themâu cyflawni'n gwbl ar wahân, maent i gyd yn rhyngddibynnol ac mae ganddynt berthynas gydgysylltiedig a gorgyffyrddol wedi'u cysylltu dan Thema 1 fel thema gyffredinol.  Dangosir hyn yn ffigur xv drosodd.

Ffigur xv: Perthnasoedd Cydgysylltiedig a Gorgyffyrddol Themâu Cyflawni'r Cynllun




Yn y bennod ganlynol mae pob un o'r themâu yn nodi:

- Gweledigaeth 2030,
- Blaenoriaethau Thema
- Camau gweithredu i'w rhoi ar waith
- Cerrig Milltir ac Amserlenni
- Dulliau Mesur Llwyddiant

# 07. Themâu Cyflawni

## 7.1 **Thema 1** Diwylliant ac arweinyddiaeth sefydliadol

### 7.1.1 Gweledigaeth 2030

Bydd yr argyfwng hinsawdd a natur wrth wraidd ein holl waith. Yn ein penderfyniadau, byddwn yn cymryd camau cadarnhaol i leihau effeithiau hinsawdd ac ecolegol. Byddwn yn arwain drwy esiampl ac yn grymuso ein partneriaid, cymunedau ac unigolion i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a blaenoriaethu atebion sy'n seiliedig ar natur.

Bydd newid ymddygiad, gwell dealltwriaeth o'n heffaith amgylcheddol, addysg a hyfforddiant yn allweddol.

Rydym am i pawb ddeall yr argyfwng a wynebwn ac ymateb i hyn yn eu gweithredoedd, eu penderfyniadau a'u gweledigaethau tymor hwy o ddydd i ddydd ar gyfer ein gwasanaethau mewnol ac ar gyfer y ddinas gyfan. Bydd codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fygythiad newid yn yr hinsawdd yn helpu i lunio ymddygiadau ar draws y sefydliad i gyd-fynd â'n dyhead di-garbon net.

Mae ein strwythur arweinyddiaeth uwch newydd yn cydnabod pwysigrwydd newid yn yr hinsawdd drwy gyflwyno Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Bydd y camau sy'n cael eu hymrwymo dan y thema Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol yn dangos ymrwymiad ar draws y Cyngor i garbon sero net. Byddwn yn dangos arweiniad ac atebolrwydd wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn drwy ymgorffori meddwl sy'n canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd yn ein prosesau pennu polisïau a gwneud penderfyniadau.

### 7.1.2 Blaenoriaethau

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth rydym wedi nodi pedair blaenoriaeth:

**1. Ymddygiad a Modelau Rôl**

Bydd ein haelodau etholedig a'n gweithlu yn cael eu hannog a'u cefnogi i ystyried eu cyfraniad unigol at fod yn ddi-garbon net erbyn 2030, a bydd arweinwyr yn modelu disgwyliadau'r Cyngor.

**2. Perfformiad a Llywodraethu**

Our democratic and corporate functions will be committed to becoming net zero carbon by 2030, and our decision-making, governance framework and performance monitoring will reflect this commitment.

**3. Hyrwyddo ac Ymgysylltu**

Rhoi cyhoeddusrwydd i gynnydd a chyflawniadau i ymgorffori dyheadau i fod yn garbon sero-net erbyn 2030.

**4. Ymrwymiad Ariannol**

Cynllunio ar gyfer effeithiau ariannol newid yn yr hinsawdd, a sicrhau bod ein cynllunio ariannol tymor canolig i hirdymor yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiad y Cyngor i leihau allyriadau carbon os yn bosib.

# 07. Themâu Cyflawni

## 7.2 **Thema 2** Ein Hadeiladau

### 7.2.1 Gweledigaeth 2030

Sicrhau ynni carbon sero-net a chefnogi'r adferiad natur ar draws ein hadeiladau erbyn 2030.

Amcangyfrifir bod ein hallyriadau adeiladu fel Cyngor yn 15,231 tunnell o garbon deuocsid cyfwerth ($tCO_2e$) sy'n cyfateb i 18.6% o'n hallyriadau cyffredinol.

Mae hyn yn cynnwys yr allyriadau o danwydd ar gyfer gwresogi, trydan a gwres ardal.

Mae adeiladau ac asedau sy'n gysylltiedig ag addysg fel ysgolion yn ffurfio cyfran fawr o allyriadau carbon ein hystâd ac felly maent yn ffocws i'r Cyngor.

Mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud yn ein hysgolion drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr ysgolion hynny mor agos at garbon sero-net ag sy'n fforddiadwy.

### 7.2.2 Blaenoriaethau

I wireddu ein gweledigaeth rydym wedi nodi pum blaenoriaeth:

1. **Adeiladau Newydd y Cyngor**

   Pob adeilad newydd i fod yn garbon sero-net.

2. **Ôl-ffitio Adeiladau**

   Ôl-ffitio dwfn gyda'r nod o greu adeiladau ynni carbon sero-net.

3. **Gwres Adnewyddadwy**

   Gweithredu gwres adnewyddadwy mewn adeiladau newydd.


4. **Nwy Naturiol**

   Ymrwymiad i leihau'n sylweddol neu ddileu gwres nwy naturiol yn yr adeiladau i gyd.

5. **Rhesymoli Adeiladau**

   Archwilio asedau'r presennol i ddeall eu heffaith carbon hirdymor gyda'r nod o'u defnyddio'n well yn strategol.

Ffigur xv: Dadansoddiad o gyfanswm yr allyriadau yn ôl math o adeilad



# 07. Themâu Cyflawni

## 7.3 Thema 3 Ein Tir

### 7.3.1 Gweledigaeth 2030

Dinas sy'n rheoli ac yn cynyddu ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ddiogelu, cyfoethogi, gwella a chysylltu'r amgylchedd naturiol mewn modd carbon niwtral a chyfrifol o ran yr hinsawdd.

Amcangyfrifir bod tir a choetir y Cyngor yn creu storfa garbon fiolegol o 1,041 CO2e sy'n cyfateb i wrthbwysiad o -1.3%.

Caiff carbon biolegol ei ddal a'i storio trwy storio carbon deuocsid mewn llystyfiant fel glaswelltiroedd, coedwigoedd, priddoedd a chefnforoedd.

Mae dal a storio carbon yn rhan hanfodol o gyfyngu ar effaith y newid yn yr hinsawdd. Mae cynnal ac ehangu cynefinoedd fel coetiroedd ar ein hystâd yn allweddol i ddiogelu a gwella faint o garbon gaiff ei storio.

### 7.3.2 Blaenoriaethau

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth rydym wedi gosod pedair blaenoriaeth:

**1. Ecosystem Wydn**

Rheoli a gwella iechyd a gwydnwch safleoedd ecolegol sensitif drwy gynyddu, adfer a chysylltu cynefinoedd a bywyd gwyllt yn gynaliadwy.

**2. Coed a Choetir**

Gwella iechyd pobl, ansawdd yr amgylchedd, lleihau a dal carbon drwy reoli a chynyddu coed a choetir Casnewydd yn gynaliadwy.

**3. Mannau Gwyrdd Trefol**

Cynyddu seilwaith gwyrdd y tir cyhoeddus dinesig i leihau anghydraddoldebau amgylcheddol, er buddion lluosog adferiad natur, iechyd a lles pobl, addasu'r hinsawdd, lliniaru llifogydd, lleihau carbon a darparu aer glân.

**4. Tir ar Brydles y Cyngor**

Cefnogi adferiad natur a lleihau allyriadau carbon o dir fferm y mae'r Cyngor yn berchen arno ac unrhyw dir arall sydd ar brydles.

# 07. Themâu Cyflawni

## 7.4 Thema 4 Trafnidiaeth a Symudedd

### 7.4.1 Gweledigaeth 2030

Dinas sy'n cynnig dewisiadau teithio iach a chynaliadwy i bobl.

Amcangyfrifir bod ein hallyriadau trafnidiaeth fel Cyngor yn 5,603 $tCO_2e$ sy'n cyfateb i 6.9% o'n hallyriadau cyffredinol.  Mae hyn yn cynnwys yr allyriadau o'n cerbydau peiriannau a fflyd, sut mae ein staff yn teithio i'r gwaith ac yn ystod eu diwrnod gwaith.

Mae gennym hefyd rôl ehangach i'w chwarae wrth weithio gyda'n partneriaid ledled y ddinas i gynllunio a darparu rhwydwaith trafnidiaeth integredig, aml, carbon isel a hygyrch sy'n fforddiadwy, yn unol â'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.  Bydd hyn yn lleihau llygredd aer, yn hyrwyddo gwydnwch amgylcheddol tra'n rhoi cyfle cyfartal.

### 7.4.2 Blaenoriaethau

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth rydym wedi gosod naw blaenoriaeth.

Allyriadau'r Cyngor

**1. Milltiroedd Busnes (Llwyd) a Chymudo Staff**

Lleihau allyriadau carbon gan gymudo gweithwyr a milltiroedd llwyd, drwy annog gweithio ystwyth, teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn.

**2. Fflyd**

Lleihau allyriadau carbon y Cyngor drwy symud i fflyd cerbydau allyriadau isel iawn.

Rôl Ehangach

**3. Rhwydwaith Trafnidiaeth**

Rheoli'r rhwydwaith trafnidiaeth i alluogi pobl i deithio mewn ffordd fwy cynaliadwy.

**4. Cynllunio Defnydd Tir a Chreu lleoedd**

Sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gael o'r cychwyn cyntaf ym mhob datblygiad newydd, gan gynnwys cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith gwefru trydan.

**5. Teithio Llesol**

Lleihau allyriadau carbon drwy annog teithio llesol ar draws y ddinas.

**6. Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na'r defnydd o geir.

**7. Seilwaith Pwyntiau Gwefru**

Cynyddu capasiti gwefru ar draws y ddinas.

**8. Ysgolion**

Lleihau allyriadau carbon o deithio o'r cartref i'r ysgol.

**9. Tacsis**

Gweithredu polisïau i gefnogi'r symudiad i fflyd tacsis allyriadau isel.

# 07. Themâu Cyflawni

## 7.5 Thema 5 Y Nwyddau a'r Gwasanaethau a Gaffaelwn

### 7.5.1 Gweledigaeth 2030

Bydd caffael cynaliadwy wrth wraidd y gwaith o sicrhau bod ein contractau allanol yn effeithio cyn lleied â phosibl ar yr hinsawdd a natur ac yn lleihau ôl troed carbon nwyddau, gwaith a gwasanaethau a gaffaelir.

Amcangyfrifir bod yr allyriadau o'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynwn a'n cadwyn gyflenwi fel Cyngor yn 55,168 $tCO_2e$ sy'n cyfateb i 67.3% o'n hallyriadau cyffredinol.

Dylid nodi bod y fethodoleg a argymhellir ar gyfer cyfrifo'r allyriadau hyn yn seiliedig ar wariant ar gategori penodol a'r allyriadau sy'n gysylltiedig â'r categori hwnnw (fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru). Y canlyniad yw amcangyfrif o'r allyriadau cyffredinol ar gyfer prosesau caffael. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau canlyniadau mwy cywir ar gyfer adrodd yn y dyfodol.

### 7.5.2 Blaenoriaethau

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth rydym wedi gosod pedair blaenoriaeth:

**1. Mesur**

Ennill dealltwriaeth dda o'n $tCO_2e$ amcangyfrifedig y flwyddyn o nwyddau a gwasanaethau a gafaelwyd, a'i broffil allyriadau a'i sylfaen cyflenwyr.

**2. Canllawiau, Offer a Hyfforddiant**

Datblygu canllawiau, offer a hyfforddiant i'r sefydliad i gefnogi staff i leihau carbon drwy gydol cylch bywyd prosesau caffael.

**3. Partneriaeth**

Arwain drwy esiampl a gweithio gyda'n partneriaid caffael strategol, o'r sector preifat a chyhoeddus, i gysoni dyheadau o ran y newid yn yr hinsawdd, lleihau carbon a'r economi gylchol.

**4. Ymgysylltu**

Cymell cyflenwyr drwy feini prawf gwerthuso cymesur i chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i leihau effeithiau carbon a'r hinsawdd.

# 07. Themâu Cyflawni

## 7.6 Thema 6
## Ein Rôl Ehangach

### 7.6.1 Gweledigaeth 2030

Arwain drwy esiampl a chefnogi ein cymunedau a'n partneriaid yn rhagweithiol tuag at gamau gweithredu dros natur ac adfer yr hinsawdd ledled y gymdeithas.

Mae gan y Cyngor rôl ehangach i'w chwarae hefyd o ran cefnogi lliniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd ledled y gymuned drwy'r gwasanaethau a ddarparwn.

Gall sut rydym yn darparu ein gwasanaethau gefnogi taith y ddinas i fod yn garbon sero-net ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Er enghraifft:

- Cynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy carbon isel drwy gynllunio a'n cynllun datblygu lleol.
- Gweithio gyda'r sector preifat i ddarparu ynni adnewyddadwy lleol a rhanbarthol.
- Rheoli gwastraff dinesig i leihau allyriadau carbon.

Amcangyfrifir bod allyriadau o'n gwasanaethau gwastraff yn 6,908 $tCO_2e$ sy'n cyfateb i 8.4% o allyriadau cyffredinol ein Cyngor. Mae'n rhaid nodi ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng gwastraff y Cyngor a'r Ddinas ar hyn o bryd, felly, mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r gwastraff a gynhyrchir gan y ddinas gyfan ac yn cael ei gasglu gan y Cyngor. Bydd lleihau gwastraff yn y ffordd gywir yn lleihau ôl troed carbon y ddinas.

### 7.6.2 Blaenoriaethau

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth mae gennym chwe blaenoriaeth:

**1. Creu lleoedd a Rheoli Adeiladu**

Lleihau allyriadau carbon a chefnogi natur drwy ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy, carbon isel, dylanwadu ar ynni carbon isel ac adeiladu cymunedau cryf.

**2. Ynni**

Nodi a gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i'r system ynni leol i ddatgarboneiddio gwres, trydan a thrafnidiaeth leol a sylweddoli cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol.

**3. Llifogydd**

Cynyddu gwytnwch o ran yr hinsawdd a lliniaru yn erbyn llifogydd ledled y ddinas gan ddefnyddio ystod o fesurau gan gynnwys amddiffynfeydd llifogydd naturiol.

**4. Gwastraff**

Lleihau allyriadau carbon o reoli gwastraff er mwyn bod yn ddinas a chenedl ddiwastraff erbyn 2050.

**5. Digidol**

Defnyddio atebion digidol yn effeithiol i leihau a monitro allyriadau carbon.

**6. Partneriaethau a Chymunedau**

Cydweithio â phartneriaid a chymunedau i hyrwyddo adferiad yr hinsawdd a natur ledled y ddinas.

# 08. Amserlenni

| | | |
|---|---|---|
| **Awst-Hydref 2021** | Datblygu Ymgynghoriad Drafft o'r cynllun | Cwblhawyd |
| **29 Hydref 2021** | Adolygu gan y Pwyllgor Craffu | Cwblhawyd |
| **31 Rhagfyr 2021** | Dyddiad cau'r ymgynghoriad | Cwblhawyd |
| **Ionawr/ Chwefror 2022** | Adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a diweddaru'r Cynllun Newid yn yr Hinsawdd. | Cwblhawyd |
| **9 Mawrth 2022** | Cyflwyno i'w gytuno a'i gymeradwyo gan y Cabinet. | Cwblhawyd |
| **Mawrth 2022** | Cyhoeddi'r cynllun | Cwblhawyd |
| **Mawrth/ Ebrill 2022** | Datblygu fframwaith cyflawni, llywodraethu a pherfformiad | Cwblhawyd |
| **Ebrill 2022** | Dechrau gweithredu'r cynllun | Cwblhawyd |
| **Bob blwyddyn** | Cyhoeddi adroddiad cynnydd | |
| **Bob blwyddyn** | Adolygu'r cynllun | |
| **Ebrill 2026** | Dechrau datblygu cynllun newydd ar gyfer y cyfnod nesaf 2027-32 | |

SERO NET
CASNEWYDD
NET ZERO
NEWPORT

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD